Beth yw i-Size?

Rheoliad newydd gan yr UE ynghylch diogelwch seddau plant mewn ceir, ac mae'n golygu bod modd gosod y seddau'n haws a'u bod yn diogelu'ch plentyn chi'n well.

- Mae seddau i-Size wedi'u seilio ar daldra'r plentyn yn hytrach na'i bwysau/ na'i phwysau
- Bydd babanod mewn seddau i-Size mewn ceir yn dal i wynebu tuag yn ôl tan iddyn nhw fod o leiaf yn 15 mis oed
- Caiff seddau i-Size eu profi am wrthdrawiadau i sicrhau eu bod yn diogelu plant yn well rhag gwrthdrawiadau o'r ochr
- Bydd seddau i-Size yn ffitio unrhyw gerbyd sydd wedi'i gymeradwyo dan gynllun i-Size
- Os oes gan eich cerbyd ISOFIX, ewch i wefan gweithgynhyrchydd y sedd i wirio bod y sedd i-Size wedi'i chymeradwyo ar gyfer eich car chi.

Cynhyrchwyd gan
Diogelwch Ffyrdd Cymru
02920 250600
diogelwchffyrddcymru.org.uk

Oes angen i mi brynu sedd plentyn newydd i 'nghar i'n awr?

Nac oes. Os oes gennych chi sedd car ar hyn o bryd ac os yw hi wedi'i chymeradwyo gan fodloni rheoliadau R44.04 (gwiriwch y label), gallwch ddal i'w defnyddio.
Bydd hi'n dal i fod yn gyfreithiol i ddefnyddio seddau R44.04 am beth amser am y bydd y ddau reoliad yn cydredeg â'i gilydd.

Sut mae i-Size yn ei gwneud hi'n fwy diogel i blentyn deithio?

Bydd hi'n haws gosod seddau plant mewn ceir.
Mae i-Size yn cynnig gwell diogelwch rhag gwrthdrawiadau o'r ochr.
Mae i-Size yn golygu y bydd plant yn dal i eistedd gan wynebu tuag yn ôl tan iddynt fod o leiaf yn 15 mis oed.

Sut mae gwybod pryd y dylwn fod yn newid i'r maint nesaf o sedd i blentyn mewn car?

Mae seddau i-Size wedi'u seilio ar daldra'r plentyn yn hytrach na'i bwysau/na'i phwysau. Gan fod rhieni'n aml yn gwybod taldra'u plentyn yn well na'u pwysau, dylai hi fod yn haws barnu pryd y bydd eich plentyn yn barod i symud i sedd sy'n fwy o faint. Cadwch eich plentyn yn y sedd sy'n addas i'w bwysau/ei phwysau tan iddo/iddi gyrraedd y terfyn uchaf a ddangosir ar label y sedd.

Pam y dylai plentyn ddal i wynebu tuag yn ôl am gyfnod hwy?

Mae ar esgyrn babanod a phlant angen llawer mwy o amddiffyniad rhag y grymoedd a gewch chi mewn gwrthdrawiad. Gan fod gwddf ac asgwrn cefn plant yn fwy agored i gael eu hanafu mewn gwrthdrawiad sy'n taro tu blaen car, gall eich plentyn wynebu mwy o risg os caiff ei droi/ei throi i wynebu tuag ymlaen yn rhy gynnar. Y cam mwyaf diogel yw cadw'ch plentyn yn ei sedd ac iddo/iddi wynebu tuag yn ôl mor hir â phosibl. Peidiwch â chael eich temtio i newid eich baban i wynebu tuag ymlaen tan iddo neu iddi wneud hyn:

- Cyrraedd terfyn y pwysau neu'r taldra ar gyfer ei sedd bresennol (gwiriwch label y sedd); neu
- Cyrraedd o leiaf 15 mis oed.

Sut mae i-Size yn ei gwneud hi'n haws gosod seddau mewn ceir?

Y syniad y tu ôl i i-Size yw y bydd pob sedd i blentyn mewn car yn y dyfodol yn ffitio ym mhob car. Mae pob sedd i-Size i blentyn yn defnyddio ISOFIX, sef system sy'n cysylltu'r sedd â ffrâm eich car. Mae ISOFIX yn ei gwneud hi'n symlach gosod sedd i blentyn mewn car heb orfod wynebu cymhlethdod defnyddio gwregys diogelwch y cerbyd. Efallai fod eich car eisoes wedi'i gymeradwyo gan i-Size. Ond os nad ydyw, y cyfan y bydd angen i chi ei wneud cyn prynu sedd i-Size yw gwirio gyda gweithgynhyrchydd y sedd ei bod hi'n addas ar gyfer eich car chi. Pa sedd bynnag y dewiswch ei phrynu i'w gosod yn eich car, argymhellwn mai arbenigwr sy'n ei gosod.

I gael gwybod rhagor neu i gael manylion eich swyddog diogelwch ar y ffyrdd lleol, cysylltwch â:
communication@roadsafetywales.org.uk neu ffoniwch 02920 250600